# POBOL PARRI ● Parri's people



## Gwenfair Vaughan Jones – actores

Ar y cyd gydag S4C

# Gwenfair yn credu mewn bachu ar ei chyfle

MAE'N bell iawn o Ddyffryn Ogwen i Singapore, ac yn fyd gwahanol bron, ond mae'n daith y mentrodd Gwenfair Vaughan Jones arni yn llawn hyder.

Yn wir mae hyder a phenderfyniad i lwyddo yn rhan annatod o natur yr actores 28 oed o'r Gerlan, sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Os ymgartrefu hefyd, oherwydd mae'n cyfaddef ei bod yn treulio llawer o'i hamser ar y ffordd rhwng un theatr a'r llall, ac un wlad a'r llall.

"Mae'n rhaid derbyn mai bywyd nomadaidd ydy bywyd actor ond, er y byddaf yn llawn cyffro wrth gychwyn ar joban newydd, weithiau mae rhywun yn colli 'mynedd ar bacio a dadbacio o un diwrnod i'r nesa'," meddai.

"Dydy hi ddim wastad yn braf gorfod byw mewn amrywiol westai, ac mi fydda' i'n dyheu am gael bod gartref. Ond pan fydda' i wedi bod adref am gyfnod, mi fydda' i'n ysu i gael mynd i ffwrdd i rywle.

"Mae'n debyg mai'r bywyd delfrydol fyddai treulio mis gartref a mis yn teithio am yn ail â'i gilydd!"

Teithiodd yn helaeth iawn dros y tair blynedd diwethaf wrth i gynhyrchiad Cwmni'r Arad Goch o Taliesin, lle y bu Gwenfair yn chwarae Ceridwen, brofi'n hynod o boblogaidd ym mhob cwr o'r byd.

"Dechreuodd Taliesin fel sioe Gymraeg i deithio Cymru, ond yn sgîl hynny cawsom wahoddiad i fynd â hi i Ddenmarc, lle y buon ni'n ei pherfformio hi yn Gymraeg.

"Ond wrth i fwy a mwy o bobol ddod i glywed amdanom, aethom ati i ddysgu fersiwn Saesneg o'r sioe. Fuon ni yng Nghanada a'r Unol Daleithiau, ac mi enillon ni

***HAFOD HAIDD***
***S4C/NOS LUN***

Wobr Waterford am y sioe orau i blant yn Nulyn y llynedd.

"Daeth y gwahoddiad i berfformio mewn gŵyl yn Singapore heb i'r trefnwyr weld y sioe, hyd yn oed. Roeddan nhw wedi gweld adolygiad yn ei chanmol, ac mi gawsom ni gymorth gan y Cyngor Prydeinig i'n galluogi i fynd yno.

"Mae Taliesin yn defnyddio cymysgedd o ddulliau theatrig traddodiadol a chyfoes, ac yn cynnwys gwaith clocsio a chanu gwerin.

"Mae'n wefreiddiol cael cyflwyno sioe Gymreig mewn cyswllt rhyngwladol, a dangos i wledydd eraill yr hyn sy'n cael ei greu yng Nghymru. Mae gynnon ni theatr soffistigedig, o feddwl pa mor ifanc ydy'r sîn broffesiynol yng Nghymru, ac mi fydd pobol yn aml yn gwirioni o weld ein stwff.

"O'r diwedd mae delwedd Cymru yn un ffasiynol, a bellach mae'r acen Gymreig yn dechrau bod yr un mor dderbyniol ag y mae'r un Wyddelig neu Albanaidd. Mae'n rhaid i ni fachu'r cyfle hwn."

Ar hyn o bryd mae Gwenfair Vaughan Jones i'w gweld ar y sgrîn fach yn chwarae Megan, merch Hafod Haidd yn y gyfres gomedi o'r un enw sydd wedi ennyn llid rhai o'r beirniaid. Ond dydy hi'n hidio dim am hynny, ac yn edrych ymlaen at ddechrau ffilmio'r ail gyfres ymhen y mis.

"Y gwir amdani ydy bod gan bawb chwaeth wahanol, a'i feddwl ei hun. Os na fyddai hynny'n wir, yna dim ond un math o raglen fyddai ei hangen.

"Pe byddai rhywun yn trïo plesio pawb, yna plesio neb fyddai'r canlyniad. Yn ôl yr ymateb dwi wedi ei brofi, mae nifer o bobol ifanc yn hoffi'r gyfres, ac yn cwyno nad ydy hi'n ddigon *wacky* at eu chwant nhw. "Mae chwaeth yn gallu newid o genedlaeth i genhedlaeth, a dwi'n cofio pan oeddwn i yn fy arddegau cymaint y gwnes i fwynhau'r gyfres Teulu'r Mans, er gwaetha'r holl feirniadu fu ar honno."





☐ **MWYNHAU HER: Gwenfair Vaughan Jones (uchod), ac fel Megan yn Hafod Haidd (de)**

DECHREUODD ei gyrfa ym myd teledu fel cyflwynydd y rhaglen blant Troi a Throi, a'i rôl ddrama ddiwethaf ar y sgrîn fach oedd fel Hannah yn Y Palmant Aur. A dywed yr actores bod byd o wahaniaeth rhwng y ffordd yr aeth ati i actio'r rhan honno o'i gymharu â rôl Megan yn Hafod Haidd.

"Mae Megan yn gofyn am arddull actio 'mawr'. Mae hi'n gorwneud popeth, ond efo Hannah roedd gofyn bod yn gynnil tu hwnt. Actores 'nôl yn y tridegau oedd Hannah, ac wedi ei hyfforddi i siarad Saesneg 'cywir'."

Mi fydd Gwenfair Vaughan Jones yn mentro i fyny'r A470 hunllefus yn aml i ymweld â'r teulu yn y Gerlan, a dywed iddi werthfawrogi'r ardal mwyfwy ers iddi symud i'r brifddinas i fyw.

"Mi wn i ei bod yn ystrydeb i ddweud hynny, ond mae o'n wir. Pan oeddwn i'n byw yn y Gerlan yng nghanol y mynyddoedd, prin fy mod i'n sylwi arnyn' nhw.

"Roeddyn' nhw yna bob diwrnod o 'mywyd, ac er i mi deimlo sawl gwaith y dylwn i wneud fwy o ymdrech i'w crwydro, roedd hynny'n wastad yn rhywbeth y gallwn ei adael tan ryw bryd arall. "Ac mi ydw i'n ymddwyn yn yr union un modd yng Nghaerdydd. Mae 'na gymaint i'w weld, ac mae 'na gymaint o botensial i'r lle, ac eto prin y bydda' i'n gwneud y gorau o beth sydd ar gael i mi. Mae'r rheiny hefyd yn bethau y gallaf fforddio i'w gadael tan ryw bryd arall."

**Ian Parri**

> **Gwefreiddiol cael cyflwyno sioe Gymreig mewn cyswllt rhyngwladol**